# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Prifysgol Abertawe 2022-2025

## Cyflwyniad

O'r traeth a thwyni'r Bae i goetiroedd, dolydd a gerddi Singleton, mae campysau Prifysgol Abertawe wedi'u lleoli mewn lleoliadau hardd ac eang rydym ni'n eu rhannu ag amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt. Mae ein hamgylchedd naturiol yn darparu adnodd cyfoethog i'r Brifysgol, gan gynnig amrywiaeth o wasanaethau ecosystem: mae'n helpu i leihau llygredd aer a sŵn; mae'n cymedroli'r hinsawdd leol, gan leddfu tymheredd, oerni a gwynt eithafol; mae'n cynnig labordy byw ar gyfer addysgu'r genhedlaeth nesaf o ecolegwyr; ac yr un mor bwysig, mae'n cynnig amgylchedd iach a hamddenol i'n cymuned ailwefru eu batris, wrth helpu i ddenu a chadw myfyrwyr a staff. Nid yw'r campysau yn bodoli ar wahân – maent yn ffurfio rhan bwysig o amgylchedd rhanbarth Bae Abertawe, gan gysylltu â'r byd ehangach a gweithredu fel coridorau i fywyd gwyllt.

Mae tystiolaeth eang o'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac ochr yn ochr â'r argyfwng  hinsawdd, dyma yw un o'r heriau mawr mae dynol ryw yn eu hwynebu. Mae gan brifysgolion rôl unigryw a hanfodol wrth lywio ac arwain yr adferiad trwy eu hymchwil a'u haddysgu. Ond yn fwy na hynny, os ydym ni am i bobl ein cymryd o ddifrif, mae'n rhaid i ni weithredu fel model rôl i eraill - yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol - drwy ddangos arfer gorau wrth reoli ein hystad.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth (BAP) yn bodloni gofyniad a6(6) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn cyd-fynd â'r cynllun rheoli ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Twyni Crymlyn. Mae'n rhan o System Rheoli Amgylcheddol (EMS) y Brifysgol drwy nodiadau a gweithdrefnau technegol i sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni ei dyletswyddau deddfwriaethol ac yn gallu cael budd o'r cyfleoedd a gyflwynir drwy weithio gyda natur. Mae manylion a chyd-destun pellach cefndir amgylcheddol a deddfwriaethol y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth hwn ar gael yn ein Fframwaith Bioamrywiaeth. Dyma'r drydedd fersiwn o'n Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth ac mae'n cynnwys yr un amcanion â'r fersiwn flaenorol, ond y prif wahaniaeth yw cynnwys Pentref Chwaraeon Lôn Sgeti fel yn rhan o'i gwmpas am y tro cyntaf. Y bwriad yw y bydd yn ddogfen fyw i'w defnyddio a'i diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau bod ein hystad yn parhau i gynnig cartref i fywyd gwyllt yn ogystal â phobl.

Mae'r prif risgiau a chyfleoedd ar gyfer ein hamgylchedd naturiol yn deillio o reoli ein tiroedd yn uniongyrchol a datblygu ystad y Brifysgol, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y cynllun gydag adrannau am y ddau faes gwaith. Mae'r meysydd allweddol eraill yn cynnwys monitro ein hamgylchedd naturiol, hyrwyddo ein mannau gwyrdd at ddibenion addysgu, ymchwil a lles, ac ymrwymo i weithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau ymagwedd integredig at greu a chadw ecosystemau gwydn. Mae'r adran olaf yn ymdrin ag adrodd am y cynllun a'i weinyddu.

## Ymrwymiadau'r Strategaeth Lles a’r Argyfwng Hinsawdd (2021-2025)

Mae ymrwymiadau allweddol am reoli amgylchedd naturiol y Brifysgol wedi'u cynnwys yn Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd y Brifysgol ac yn gonglfaen i'r Cynllun hwn, a chânt eu croesgyfeirio yn y cynllun gweithredu:

| | |
|---|---|
| NE 4 | Caiff ardaloedd sylweddol o'r ddau gampws eu rheoli fel dolydd blodau gwyllt sy'n cefnogi amrywiaeth fywiog o anifeiliaid di-asgwrn-cefn y mae'r Brifysgol yn eu hystyried yn ased pwysig |
| NE 5 | Bydd yr holl waith datblygu ar y campysau yn ystyried effaith a chyfleoedd meithrin natur ar y dechrau er mwyn arwain at gynnydd net mewn bioamrywiaeth, gan gynnwys y defnydd cyntaf gennym o doeon bioamrywiol byw (brown) |
| NE 6 | Caiff Amcanion a Thargedau Cynllunio Gweithredu ar Fioamrywiaeth eu cynnwys mewn Cynlluniau Gweithredu ar Gynaliadwyedd corfforaethol a lleol (Cyfadrannau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol) fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Amgylcheddol (EMS) ISO 14001) |
| NE 7 | Byddwn yn adrodd am berfformiad bioamrywiaeth fel rhan o'r Adolygiad Rheoli blynyddol yn y Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol (CR) drwy'r Gweithgor Bioamrywiaeth (anffurfiol) a'r EMS (ISO 14001) |
| NE 9 | Byddwn yn cynnig lleoliadau profiad gwaith (Go Wales, WoW) ac interniaethau (SPIN, interniaethau blwyddyn mewn diwydiant) i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd |
| NE 10 | Bydd hyfforddiant staff wedi'i dargedu ac anffurfiol yn cynyddu gwybodaeth a gallu bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol |
| NE 11 | Bydd bioamrywiaeth yn parhau i fod yn thema allweddol o SWell a mentrau, ymgyrchoedd ac apiau cyfranogiad eraill |
| NE 12 | Byddwn yn cynnal rhaglen o weithgareddau ymgysylltu i fyfyrwyr a staff er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'n bywyd gwyllt, a rhagor o wybodaeth amdano, a’r hyn rydym ni'n ei wneud i'w amddiffyn a sut y gallant chwarae rôl yn hynny |
| NE 13 | Caiff goblygiadau a chyfleoedd storio carbon eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am ddatblygu a rheoli mannau gwyrdd y Brifysgol a'r SoDdGA |
| NE 14 | Byddwn yn creu ecosystemau cynaliadwy a gwydn sydd wrth wraidd y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth (BAP) a chynllun rheoli’r SoDdGA |
| NE 15 | Gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol, byddwn yn sicrhau bod cadwraeth ystad y Brifysgol yn atgyfnerthu ac yn gwella gwytnwch ecosystemau'r ddinas, y rhanbarth a'r tu hwnt |
| NE 16 | Bydd monitro tymor hir priodol yn nodi newid amgylcheddol ac yn llywio rheoli ystad y Brifysgol yn y dyfodol |

| | |
|---|---|
| NE 17 | Bydd ymgyrchoedd glanhau traethau, gwirfoddoli gan staff a gweithgareddau pwrpasol eraill yn rhan o Strategaeth Les y Brifysgol, Diwrnodau Lles ar y ddau gampws a gweithgareddau eraill sy'n canolbwyntio ar les ac iechyd |
| NE 18 | Byddwn yn annog y defnydd o fannau gwyrdd ar ein campysau a'r SoDdGA er budd lles myfyrwyr a staff |
| NE 19 | Byddwn yn cydweithio gyda chydweithwyr yn y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Myfyrwyr er mwyn rhoi system ffurfiol ar waith i staff, myfyrwyr a'r gymuned sy’n seiliedig ar ecotherapi ac atgyfeiriadau ymgysylltu â chynaliadwyedd gan gyfrannu at y Pum Llwybr i Les |

## Cynllun Gweithredu

**1. Rheol ein hystad - ein tiroedd a'n mannau gwyrdd**
**Amcan 1: Gwella'r modd y rheolir ein campysau er budd bywyd gwyllt**
**Amcan 2. Creu ardaloedd newydd o gynefin bywyd gwyllt gwerthfawr lle y bo'n briodol**
**Amcan 3. Sicrhau bod gwaith a wneir i gynnal a chadw ystad y Brifysgol a'i datblygu yn gwella bioamrywiaeth yn gyffredinol**

| Rhif | Cam Gweithredu | Campws | Mesur | Dyddiad targed | Cynnydd | Prif gyswllt |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Gwella gwerth glaswelltiroedd i fywyd gwyllt drwy leihau faint o dorri'r gwair a wneir lle bo modd a lleihau ffrwythlondeb y pridd drwy ddefnyddio peiriannau torri a chasglu lle bo'n ymarferol (NE 4, NE 14, NE 15) | y ddau / Lôn Sgeti | Lleihau faint o dorri'r gwair a wneir | yn parhau | | Rheolwr Tiroedd |
| 1.2 | Rheoli ardaloedd sylweddol ar y ddau gampws fel dolydd blodau gwyllt sy'n cefnogi amrywiaeth fywiog o anifeiliaid di-asgwrn-cefn (NE4, NE 14, NE 15) | y ddau | ardal o ddolydd sy'n gyfoethog o ran blodau gwyllt | yn parhau | | Rheolwr Tiroedd |
| 1.3 | Dewis rhywogaethau brodorol a/neu sy'n gyfoethog o ran neithdar (e.e. label "perffaith i beillwyr" y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol) fel yr opsiwn diofyn mewn cynlluniau plannu (NE 14, NE 15) | y ddau | canran y planhigion sy'n hybu bywyd gwyllt | yn parhau | | Rheolwr Tiroedd |
| 1.4 | Nodi a chynnal ardaloedd "blêr" heb eu trin ar y ddau gampws (NE 14) | y ddau | dim colled net | yn parhau | | Rheolwr Tiroedd |
| 1.5 | Lleihau'r defnydd o blaladdwyr ar y campws ac yn y pentref chwaraeon (gweler EMS 8.1.22 Gweithdrefn Rheoli Cynnyrch sy'n Amddiffyn Planhigion), a chwilio'n rhagweithiol am ddulliau amgen o reoli chwyn, gydag ymrwymiad i atal y defnydd o | y ddau / Lôn Sgeti | cyfaint o chwynladdwyr a ddefnyddir / dim anghydymffurfiaeth | Lleihad blynyddol parhaus, dim defnydd erbyn | | Rheolwr Tiroedd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | chwynladdwyr yn gyfan gwbl erbyn 2025 (NE 14) | | | diwedd 2025 | | |
| 1.6 | Tynnu/rheoli'r holl rywogaethau o blanhigion anfrodorol (gweler y weithdrefn EMS) (NE 14, NE15) | y ddau | lleihad blynyddol | yn parhau | | Rheolwr Tiroedd |
| 1.7 | Sicrhau bod rheolaeth o diroedd y campws yn ystyried ac yn amddiffyn bioamrywiaeth a gwytnwch yr ecosystem (bwyd a lloches i fywyd gwyllt, bioamrywiaeth pridd etc, gydag amddiffyniad cyfreithiol penodol ar gyfer adar nythu a chlwydi ystlumod) - ymgynghori â'r Swyddog Bioamrywiaeth os yn ansicr (gweler gweithdrefn EMS ar reoli coed a llwyni) (NE 14 a deddfwriaeth berthnasol) | y ddau / Lôn Sgeti | dim anghydymffurfiaeth | yn parhau | | Rheolwr Tiroedd |
| 1.8 | Nodi cyfleoedd i wella gwerth bywyd gwyllt ystad y Brifysgol a gwella gwytnwch ecosystemau (NE 14) | y ddau / Lôn Sgeti | Nifer y prosiectau | O leiaf 1 prosiect yn flynyddol | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 1.9 | Caiff goblygiadau a chyfleoedd storio carbon eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am reoli mannau gwyrdd y Brifysgol (NE 13) | y ddau / Lôn Sgeti | Potensial i storio carbon | yn parhau | | Rheolwr Tiroedd |
| 1.10 | Cadw statws y Faner Werdd ar gyfer y ddau gampws (NE 14, NE 15, NE 18) | y ddau | Baneri Gwyrdd wedi'u cadw | yn flynyddol | | Rheolwr Tiroedd |
| 1.11 | Cadw Statws Caru Gwenyn y Brifysgol (NE 14, NE 15) | y ddau | Wedi cadw statws Caru Gwenyn | yn flynyddol | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 1.12 | Cadw ein statws arian Campws Caru Draenogod gyda'r nod o uwchraddio i aur (NE 15) | Singleton | Gwobr CCD | aur erbyn 2023 | | Cymdeithas Gadwraeth (gyda chymorth) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.13 | Datblygu rhaglen flynyddol ar gyfer atgyweirio, amnewid a gosod blychau nythu ychwanegol, yn enwedig drwy weithio gyda phrosiect Dinas Gwenoliaid Abertawe i sefydlu nythfeydd bridio i wenoliaid ar y ddau gampws (NE 14, NE 15) | y ddau | nifer y blychau sy'n cael eu defnyddio | Gosodwyd y blychau gwenoliaid cyntaf ar Gampws Singleton yn 2022, ac wedi parhau ers hynny | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 1.14 | Parhau a lle bo'n briodol, ehangu'r prosiect Tyfu Tawe, gan dyfu bwyd ar y campws gyda myfyrwyr a staff (NE 18) | y ddau | nifer y bobl sy’n cymryd rhan | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth / Y Tîm Cynaliadwyedd |

| 2. Rheoli ein hystad – yr amgylchedd adeiledig<br>Amcan 1: Gwella'r modd y rheolir ein campysau er budd bywyd gwyllt<br>Amcan 2. Creu ardaloedd newydd o gynefin bywyd gwyllt gwerthfawr lle y bo'n briodol<br>Amcan 3. Sicrhau bod gwaith a wneir i gynnal a chadw ystad y Brifysgol a'i datblygu yn gwella bioamrywiaeth yn gyffredinol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Campws** | **Mesur** | **Dyddiad targed** | **Cynnydd** | **Prif gyswllt** |
| 2.1 | Bydd yr holl waith datblygu ar y campysau yn ystyried effaith a chyfleoedd meithrin natur ar y dechrau er mwyn arwain at gynnydd net mewn bioamrywiaeth, gan gynnwys y defnydd cyntaf gennym o doeon bioamrywiol byw (brown) (NE 5) | y ddau | Cynnydd net mewn bioamrywiaeth | yn parhau | | Cyfarwyddwr Cysylltiol Gwasanaethau Isadeiledd |
| 2.2 | Caiff goblygiadau a chyfleoedd storio carbon eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am ddatblygiadau ar y campws (NE 13) | y ddau | Potensial i storio carbon | yn parhau | | Cyfarwyddwr Cysylltiol Gwasanaethau Isadeiledd |
| 2.3 | Sicrhau bod yr holl waith cynnal a chadw adeiladau yn ystyried ac yn amddiffyn bioamrywiaeth (risgiau allweddol yw adar nythu a chlwydi ystlumod) - dylid ymgynghori â'r Swyddog Bioamrywiaeth os oes ansicrwydd (gweler y weithdrefn EMS ar waith cynnal a chadw toeon ac adeiladau) (NE 15 a deddfwriaeth berthnasol) | y ddau | dim anghydymffurfiaeth | yn parhau | | Cyfarwyddwr Cysylltiol Gwasanaethau Isadeiledd |

| 3. Cydweithio â phartneriaid allanol<br>Amcan 4: Sicrhau bod gwaith cadw cynefinoedd a rhywogaethau'r campws yn atgyfnerthu ymdrechion ehangach i greu ecosystemau gwydn - yn y ddinas, yn y rhanbarth a'r tu hwnt | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Campws** | **Mesur** | **Dyddiad targed** | **Cynnydd** | **Prif gyswllt** |
| 3.1 | Nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio a/neu gynal prosiectau a ariennir (e.e. B-lines Buglife; Dolydd Margam i'r Mwmbwls yr Awdurdod Lleol) i wella gwerth bywyd gwyllt y campysau a gwella cysylltedd a gwytnwch ecosystemau lleol (NE 15) | y ddau | un prosiect newydd yn flynyddol | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 3.2 | Cynrychioli'r Brifysgol ar Bartneriaethau Natur Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot (NE 15) | Amherthnasol | nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 3.3 | Cynrychioli'r Brifysgol ar weithgor Gweithio gyda Natur Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (NE 15) | Amherthnasol | nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 3.4 | Mynychu cyfarfodydd a gweithdai perthnasol eraill, fel y bo'n briodol (NE 15) | Amherthnasol | | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth |

| 4. Hybu ein hamgylchedd naturiol<br>Amcan 5: Sicrhau bod pob rhanddeiliad perthnasol yn cael hyfforddiant i'w alluogi i chwarae ei ran wrth reoli bioamrywiaeth ar y campws<br>Amcan 6: Cynyddu cyfleoedd addysgol, codi ymwybyddiaeth o'r rôl y mae ein campws yn ei chwarae wrth gynnal bywyd gwyllt a hyrwyddo gwerthfawrogiad o fanteision bioamrywiaeth a mannau gwyrdd o ran iechyd a lles | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Campws** | **Mesur** | **Dyddiad targed** | **Cynnydd** | **Prif gyswllt** |
| 4.1 | Cyfleu amcanion y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth i holl staff rheoli tiroedd drwy gyfarfodydd tîm i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion a phrosiectau bioamrywiaeth (NE 10, NE 14) | y ddau | nifer y cyfarfodydd a fynychwyd | tymhorol | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 4.2 | Nodi a darparu unrhyw hyfforddiant gofynnol sy'n gysylltiedig â biomarywiaeth i staff eraill yn ôl yr hyn mae ei angen ar gyfer y System Rheoli Amgylcheddol (i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol) (NE 10, NE 14) | y ddau | Darparwyd hyfforddiant | yn flynyddol - Gorffennaf | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 4.3 | Darparu lleoliadau profiad gwaith (Go Wales, WoW) ac interniaethau (SPIN, YiR) i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd (NE 9) | y ddau | nifer y lleoliadau gwaith | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 4.4 | Adolygu ac amnewid (os yn berthnasol) fyrddau dehongli Llwybrau Natur (ac o bosib, gynnwys mewn Llwybr Lles) (NE 18) | Singleton | | Gorffennaf 2023 | | Swyddog Bioamrywiaeth / Gweithgor Bioamrywiaeth |
| 4.5 | Datblygu a darparu rhaglen o deithiau cerdded a arweinir, tyfu ar y campws a digwyddiadau dehongli eraill i gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth y Brifysgol ar y cyd â staff a myfyrwyr (NE12, NE 14, NE 18) | y ddau | nifer y digwyddiadau | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth / Y Biowyddorau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.6 | Defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon allweddol am fioamrywiaeth - anelu at o leiaf un y mis (NE 18) | ddim yn berthnasol | nifer y postiadau | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth / Y Tîm Cynaliadwyedd |
| 4.7 | Hyrwyddo'r defnydd o fannau gwyrdd a lle i dyfu ar y campws i gynnig manteision iechyd a lles i staff a myfyrwyr, gan gefnogi Grwpiau Lles y campws, y Safon Iechyd Corfforaethol a'r rhaglen SWell (NE 12, NE 18) | y ddau | defnyddio'r campysau at ddiben lles | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth / Y Tîm Cynaliadwyedd |
| 4.8 | Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i staff a myfyrwyr (NE 9, NE 12, NE 17, NE 18) | y ddau | nifer y gwirfoddolwyr | yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth |

| **5. Arolygu, monitro a rheoli data<br>Amcan 7: Rhoi systemau rheoli data a gwybodaeth effeithlon a chadarn ar waith er mwyn sicrhau bod camau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael.** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Campws** | **Mesur** | **Dyddiad targed** | **Cynnydd** | **Prif gyswllt** |
| 5.1 | Cynnal yr hyb cofnodion bioamrywiaeth (ar SharePoint ar hyn o bryd - i'w fudo i Teams (NE 16) | ddim yn berthnasol | | Yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 5.2 | Cynnal arolwg gwaelodlin ar y ddau gampws (gan gynnwys mapio rhywogaethau goresgynnol, coed hynafol, ardaloedd heb eu trin a "blêr", glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o ran blodau a rhywogaethau allweddol) i'w cynnwys ym mhrif gynlluniau'r campws (NE 16) | y ddau | adroddiad | 31/07/2022 | | Swyddog Bioamrywiaeth / profiad gwaith myfyriwr |
| 5.3 | Llunio rhestr darged flynyddol ar gyfer blaenoriaethau o ran gwaith arolygu i fyfyrwyr ac interniaid y biowyddorau (NE 9, NE 16) | y ddau | lluniwyd rhestr | Yn flynyddol - Awst | | Swyddog Bioamrywiaeth / Gweithgor Bioamrywiaeth |
| 5.4 | Cofnodi'r holl gynnydd a cholled o ran biomarywiaeth ar y campws o ganlyniad i reoli, datblygu, digwyddiadau a phrosiectau a chynnwys y rhain mewn adroddiad blynyddol (NE 16) | y ddau | adroddiad | Yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 5.5 | Cynnal cofnod o'r holl arolygon bywyd gwyllt a monitro gwaith a gynhelir ar y campws, i'w cynnwys mewn adroddiad blynyddol (NE 16) | y ddau | adroddiad | Yn parhau | | Swyddog Bioamrywiaeth / Gweithgor Bioamrywiaeth |

| 6. Gweinyddu ac adrodd<br>Amcan 8: Sicrhau y caiff materion bioamrywiaeth ar y campws eu rheoli, eu monitro a'u cofnodi gan nifer o randdeiliaid mewn ffordd strwythuredig. | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Cam Gweithredu** | **Campws** | **Mesur** | **Dyddiad targed** | **Cynnydd** | **Prif gyswllt** |
| 6.1 | Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth | ddim yn berthnasol | | 31/01/2022 | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 6.2 | Cynnal y Gweithgor Bioamrywiaeth fel grŵp e-bostio a sefydlu Grŵp Bioamrywiaeth ar Microsoft Teams | ddim yn berthnasol | | 31/07/2022 (ac yn parhau) | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 6.3 | Adrodd yn flynyddol am roi'r Cynllun ar waith, colledion ac enillion o ra bywyd gwyllt, ymchwil a'r gwaith monitro a wneir yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu a dehongli (NE 16) | ddim yn berthnasol | adroddiad | yn flynyddol - Gorffennaf | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 6.4 | Sicrhau bod y Cynllun Rheoli Tiroedd a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn cyd-fynd yn llawn | ddim yn berthnasol | Dim gwrthddywediad | Dyddiad y diweddariad | | Swyddog Bioamrywiaeth / Rheolwr Tiroedd |
| 6.5 | Adroddiad ar gamau gweithredu bioamrywiaeth i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a6(7)) | ddim yn berthnasol | adroddiad | Rhagfyr 2022 ac 2025 | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 6.6 | Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth, gan ddiweddaru'r cynllun gweithredu yn ôl yr angen | ddim yn berthnasol | adolygu | yn flynyddol - Gorffennaf | | Swyddog Bioamrywiaeth |
| 6.7 | Cynnal adolygiad llawn o'r CGB bob 4 blynedd | ddim yn berthnasol | adolygu | Hydref 2025 | | Swyddog Bioamrywiaeth |